**Awdurdod Parc Cenedlaethol**
**20 Mai 2026**

**Yn bresennol (yn bersonol)**
Dr M Havard (Cadeirydd)
Miss F Day, y Cynghorydd T Evans, y Cynghorydd C George, y Cynghorydd SL Hancock MBE, Mr J Hogg MBE, y Cynghorydd M James a Mr GA Jones.

**Yn bresennol (ar-lein)**
Y Cynghorydd M Bowen, y Cynghorydd D Clements, Ms H Gwenllian, y Cynghorydd B Price, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, y Cynghorydd V Thomas a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol:**
Joy Arkley (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), Catrin Evans (Pennaeth Cyllid a Chodi Arian), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Llinos Jones (Cyfieithydd ar y Pryd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Michael Kent (Swyddog Monitro), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) a Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu).

[Ystafell Preseli, Swyddfa’r Parc, Llanion, ac ar-lein, 10.00am – 11:50am]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs S Hoss, y Cynghorydd A Tinley a'r Cynghorydd M Williams.

**2. Datgan Buddiannau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2026 i’w cadarnhau.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod yr Aelodau wedi cael gwybod yn y cyfarfod blaenorol bod y Cynghorydd S Alderman wedi gadael yr Awdurdod a bod gair o ddiolch wedi’i anfon ato am ei gyfraniadau.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **penderfynwyd,** yn amodol ar yr ychwanegiad uchod, bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2026 yn cael eu cadarnhau a’u llofnodi.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Er nad oedd wedi'i gynnwys yn y log gweithredu, gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ar Gynllun yr Awdurdod ar Drwyddedu Arfordiro gan i hyn fod yn rhan bwysig o’r trafodaethau yn y cyfarfod blaenorol.

Ymatebodd y Swyddog bod y gwaith ar y cynllun Trwyddedu Arfordiro wedi bod yn mynd rhagddo, fodd bynnag roedd y broses wedi cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd o ganlyniad i'r asesiadau amgylcheddol oedd yn ofynnol, a'r amser a gymerwyd i sicrhau bod y ddarpariaeth briodol ar gyfer ymgynghori â'r cyrff perthnasol ar waith. Cadarnhawyd bod pob darparwr arfordiro oedd wedi cofrestru ar gyfer y concordat wedi cael gwybod y byddai'r concordat yn parhau mewn grym nes bod y cynllun newydd yn ei le. Ychwanegodd y Swyddog bod cyfarfodydd yn cael eu trefnu gyda'r gweithredwyr i drafod y cynigion drafft ar lunio trwydded gyfer pob safle.

**Nodwyd.**

[Ymunodd y Cynghorydd V Thomas â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol].

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau neu'r cyfarfodydd canlynol yn ystod y mis diwethaf:

- Digwyddiad yng Nghastell Caeriw gyda'r Cynghorwyr C George a V Thomas i blannu coeden ifanc oedd wedi deillio o Sycamorwydden y Bwlch, a ddinistriwyd yn fwriadol, gyda grŵp o blant lleol fel rhan o'r prosiect 'Coed Gobaith'.
- Cyfarfod gyda Chyfeillion Arfordir Penfro yn Nhŷ Pwmp Sain Ffraid i weld yr injan oedd wedi'i hadfer gan Aelodau o Gyfeillion Arfordir Penfro. Llongyfarchodd y Cadeirydd y Cyfeillion am eu gwaith yn atgyweirio a chynnal a chadw'r nodwedd hanesyddol hon.
- Grŵp Llywio Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol dros gael Parc Morol gyda Tegryn Jones.
- Cyfarfod o Bartneriaeth Natur Sir Benfro gyda Miss Fiona Day.
- Cyfarfod Panel Asesu Lleol Ffermio Bro lle trafodwyd y gwaith oedd wedi'i gwblhau hyd yn hyn a'r camau nesaf ar gyfer y cynllun. Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith y byddai ceisiadau i ymuno â'r cynllun yn agor yr wythnos ganlynol, a gofynnwyd i'r Aelodau rannu'r wybodaeth unwaith y byddai ar gael.
- Cyfarfod gyda Swyddogion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i drosglwyddo'r cyfrifoldebau o Gadeirio cyfarfodydd Parciau Cenedlaethol Cymru.

Dywedodd y Cadeirydd, er nad oedd hi wedi gallu bod yn bresennol, bod Cerdded y Llwybr er Llesiant wedi'i gynnal gyda grwpiau o Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan. Llongyfarchodd y Cadeirydd y tîm am drefnu'r daith gerdded, a diolchodd i'r Swyddogion am eu gwaith caled.

Dywedodd Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ei bod wedi mynychu cyfarfod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran yr Awdurdod, fodd bynnag, ni thrafodwyd unrhyw bynciau perthnasol i'r Parc Cenedlaethol. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau am farwolaeth Jill Simpson yn ddiweddar, oedd wedi ymddeol yn ystod Hydref 2025 ar ôl dau ddegawd o weithio i'r Awdurdod. Cydnabuwyd ei gwasanaeth clodwiw a'i chyfraniadau sylweddol i'r Awdurdod a'r Parc Cenedlaethol, a mynegodd yr Aelodau eu cydymdeimlad â'r teulu.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd Pwyllgorau eraill yr Awdurdod**

Cyflwynwyd cofnodion nifer o gyfarfodydd Pwyllgor yr Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried:

- Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 11/03/2026
- Y Pwyllgor Grantiau a gynhaliwyd ar 21/01/2026
- Y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 25/02/2026
- Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 04/03/2026
- Y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 15/04/2026

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y pwyllgorau uchod.

**Nodwyd.**

[Ymunodd y Cynghorydd D Clements â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem nesaf].

**7. Y Safonau Ariannol wedi'u Diweddaru 2026**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i fabwysiadu cyfres o Safonau Ariannol oedd yn nodi dull gofynnol yr Awdurdod o ymdrin â meysydd allweddol o reolaeth ariannol. Dywedwyd bod y Safonau Ariannol wedi'u diweddaru yn flaenorol yn 2020 ac felly wedi'u hailysgrifennu i amlygu'r arferion gweithredol cyfredol. Amlygwyd bod y Safonau Ariannol wedi'u diweddaru yn cynnig cynnydd yn y terfynau dirprwyo.

Gofynnodd Aelod a fyddai hyfforddiant yn cael ei gynnal i'r staff ar y Safonau Ariannol wedi'u diweddaru. Cadarnhawyd, pe bai'r Safonau diwygiedig yn cael eu cymeradwyo, y byddai'r staff yn cael gwybod am y diweddariadau, ac y byddai hyfforddiant i'r staff yn cael ei gynnal lle bo gofyn.

O ran risg, gofynnodd Aelod am fanylion pellach ynghylch y goblygiadau hirdymor a’r rhwymedigaethau i'r Awdurdod megis y cronfeydd wrth gefn sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw senarios gwaethaf posibl. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod polisi cronfeydd ariannol wrth gefn wedi'i gymeradwyo gan yr Aelodau fis Mawrth 2026 a bod y polisi yn nodi y dylid cynnal y cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar ddim llai na £1,400k (penderfynwyd ar y lefel isaf ar ôl ystyried yr ystod lawn o risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod). Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi'i glustnodi fel y Corff Cyhoeddus sydd â’r cronfeydd wrth gefn mwyaf yn y wlad, a chadarnhaodd bod rhwymedigaethau'r Awdurdod yn cael eu hystyried yn rhai y gellir eu rheoli ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian y byddai'r polisi cronfeydd ariannol wrth gefn yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau bod lefel y cronfeydd wrth gefn yn parhau'n ddigonol.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn wrth i Aelod godi pryder ynghylch lefel y wybodaeth sensitif sydd ar gael i'r cyhoedd, ac a oedd y lefel o dryloywder yn ormodol yn yr achos hwn. Cytunodd y Prif Weithredwr i drafod y mater ymhellach gyda’r Tîm o Uwch Arweinyddion yr Awdurdod.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd**;

i. cymeradwyo'r Safonau Ariannol fel y'u nodir yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.
ii. bod y Safonau Ariannol a gymeradwywyd yn dod i rym yn ddi-oed.
iii. bod cydymffurfio â'r Safonau Ariannol yn orfodol ac yn cael ei fonitro drwy'r trefniadau llywodraethu ariannol a’r rheolaeth fewnol presennol, yn cael ei nodi.
iv. nodi'r gweithdrefnau gweithredol ariannol sydd ynghlwm (Atodiad B) sy'n ategu’r Safonau Ariannol.
v. bod y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian yn cael ei awdurdodi i wneud mân newidiadau ansylweddol i'r Safonau Ariannol lle bo gofyn i amlygu newid deddfwriaethol, argymhelliad archwilio, neu welliant gweithredol, gydag unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor i'w cymeradwyo.

**8. Y Polisi Iechyd a Diogelwch**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl fersiwn wedi'i diweddaru o'r Polisi Iechyd a Diogelwch i'w gymeradwyo gan yr Aelodau. Dywedwyd bod y polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol, fodd bynnag roedd mân newidiadau wedi’u gwneud ers yr adolygiad diwethaf. Roedd y polisi yn nodi'r fframwaith y mae'r Awdurdod yn ei ddefnyddio i reoli Iechyd a

Diogelwch ar bob lefel o'r Awdurdod, gan ddiffinio rolau a chyfrifoldebau'r Grŵp Iechyd a Diogelwch, pob aelod o’r staff a gwirfoddolwyr yn glir.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl sylw at y ffaith bod y polisi wedi bod yn destun adolygiad blynyddol, ond gan mai prin fu’r newidiadau i'r polisi ers yr adolygiad diwethaf, awgrymwyd newid cynnal yr adolygiad i bob tair blynedd, gan gyflwyno adroddiad ar unrhyw newidiadau sylfaenol i'r Aelodau yn ôl y gofyn. Cytunodd yr Aelodau bod hyn yn ddull ymarferol o adolygu'r polisi. Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod yr Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio ac felly awgrymwyd, er mwyn eglurder, y dylid cynnwys datganiad yn yr adroddiad hwnnw i gadarnhau nad oedd unrhyw newidiadau wedi bod i'r polisi.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **penderfynwyd** cymeradwyo'r Polisi Iechyd a Diogelwch.

**9. Adolygiad Blynyddol o’r Safonau**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad oedd yn rhoi trosolwg o’r modd yr oedd swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau wedi'u cyflawni, ac o faterion ymddygiad yn gyffredinol o fewn yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion ynghylch cylch gorchwyl y Pwyllgor, hyfforddiant yr Aelodau, cwynion, tueddiadau, protocol datrys lleol, goddefebau, polisi gweithredoedd annerbyniol gan achwynwyr, adroddiad blynyddol yr ombwdsmon, ac ymgynghoriadau.

O ran tueddiadau, dywedwyd bod cynnydd wedi bod mewn cwynion, gan gynnwys Rhyddid Gwybodaeth, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, a Cheisiadau Mynediad at Ddata o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, oedd yn amlwg wedi'u paratoi drwy ddefnyddio deallusrwydd artiffisial (AI). Gofynnodd Aelod a oedd gan yr Awdurdod gynllun ar waith i ddelio â'r nifer cynyddol o geisiadau a dderbynnir, pe bai'r duedd yn parhau. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at yr her o gydbwyso'r angen i fod yn dryloyw fel sefydliad sydd ag adnoddau cyfyngedig wrth law. Cydnabuwyd nad oedd yr heriau hyn yn unigryw i'r Awdurdod, a chadarnhawyd bod y Swyddogion yn cysylltu â chydweithwyr yn y Parciau Cenedlaethol eraill i rannu arfer gorau er mwyn sicrhau bod y tîm yn gweithio mor effeithlon â phosibl.

Dywedodd y Cadeirydd, yn dilyn recriwtio diweddar i'r Pwyllgor Safonau, nad oedd y cydbwysedd rhwng y rhywiau bellach yn gyfartal. Cytunodd y swyddogion y byddai hyn yn ystyriaeth wrth recriwtio i'r Pwyllgor Safonau yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

**10. Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl adroddiad oedd yn rhoi adolygiad o'r Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd ac yn cynnwys manylion ynghylch y broses, yr ymgysylltu â’r staff, y prif ganlyniadau, yr effeithiau ariannol, yr amserlen, yr apeliadau, a'r gwersi a ddysgwyd o'r broses.

Nodwyd, fel rhan o'r adolygiad, bod 9 swydd wedi cael eu gwerthuso ar raddfa is, ac felly yn yr achosion hynny, bod y polisi Diogelu Cyflog yn gymwys. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhawyd bod y polisi diogelu cyflog yn cynnig 3 blynedd o ddiogelu cyflog ar raddfa symudol, fodd bynnag, ar ddiwedd y broses apelio, nid oedd unrhyw swyddi ar gyflog wedi'i ddiogelu.

Canmolodd yr Aelodau y Pennaeth Gwasanaethau Pobl a'r tîm am eu gwaith caled yn cyflawni'r Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd a ystyrir yn broses deg a thryloyw oedd wedi cyflawni canlyniad cydnerth a chadarn i'r Awdurdod ac i’r staff.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i UNSAIN am gynorthwyo’r Awdurdod a’r staff unigol gydol y broses adolygu.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Awdurdod y Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2026 heb eu diwygio. |